



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Rita



Roedd hyn yn ddiddorol. Rydw i'n gallu gweld nawr sut mae fy ngwybodaeth bresennol am ddamcaniaethau addysgu yn cyd-fynd â'r hyn rydw i'n ei wneud ar-lein, ac rydw i hefyd yn gallu deall pa dechnolegau y bydd angen i mi eu defnyddio.

Mae gan fy sefydliad system rheoli dysgu, felly rydw i'n gallu defnyddio'r system honno i gadw'r adnoddau rydw i eisiau eu defnyddio yn fy addysgu ar-lein.

Rydw i eisoes yn defnyddio cyflwyniadau PowerPoint ac adnoddau ar y we i addysgu'r pwnc hwn yn yr ystafell ddosbarth, felly dylwn i allu ailddefnyddio rhai o'r rheiny ar-lein. Ond bydd angen i mi wrthdroi rhai o'm gwersi os ydw i eisiau defnyddio'r dechneg 'ystafell ddosbarth wrthdro'.

Rydw i eisoes yn gallu gweld y gall rhai o'm gwersi fod yn wrthrychau dysgu da, a byddai hyn yn galluogi'r dysgwyr i ryngweithio â nhw ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau. Rydw i'n meddwl po fwyaf y gallaf i ddatblygu'r adnoddau addysgu i fod yn rhai annibynnol, gyda chyfarwyddiadau o safon dda, y mwyaf llwyddiannus mae hyn yn debygol o fod. Wrth gwrs, mae gwahaniaethau pan na fyddaf i ar gael i gynnig cymorth ar unwaith gan fy mod i yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd angen i mi fod yn barod i greu gwrthrychau dysgu newydd hefyd, i lenwi'r bylchau lle rydw i'n defnyddio gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ar hyn o bryd.

Rydw i wedi edrych ymlaen yn gyflym, ac yn ystod pythefnos nesaf y cwrs hwn, byddwn ni'n dysgu mwy am ddewis technolegau, ac yn meddwl am rwydweithiau ar-lein fel ffynhonnell o gymorth ac ysbrydoliaeth. Felly bydd hynny'n helpu i roi arweiniad i fi.